# COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARD A GYNHALIWYD DROS ZOOM DDYDD MAWRTH, 21 MEHEFIN 2022

YN BRESENNOL

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:**

Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd (Yn y Gadair)
Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio
Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Diogelu'r Cyhoedd

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:**

Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd
Y Cynghorydd Aled Davies
Y Cynghorydd Matthew Dorrance, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach
Y Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus

**Swyddogion:**

Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru **(ACH)**
Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol: Twf a Menter, Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**
Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd, Cyngor Sir Ceredigion **(JD)**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion **(LE)**
Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Paul Griffiths, Swyddog Cynghori, Cyngor Sir Powys **(PG)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Gwasanaeth Twf a Datblygiadau Mawr, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Cyngor Sir Ceredigion **(FL)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, Tyfu Canolbarth Cymru **(CM)**
David Owen, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, Tyfu Canolbarth Cymru **(DO)**
Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Sarah Page, Rheolwr Cyflawni Rhaglenni, Cyngor Sir Powys **(SP)**
Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**
Nicola Williams, Rheolwr Rhaglenni Strategol, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, Cyngor Sir Powys **(JW)**
Angharad Massow, Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru **(AM)**

**Sylwedyddion o'r Llywodraeth:**

Gareth Ashman, Pennaeth Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU – Cymru
Susan Corcoran, Tîm Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU – Cymru
Darnley Reid, Tîm Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU – Cymru
Peter James, Uwch-reolwr Strategaeth a Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru
Ann Watkin, Pennaeth Strategaeth, Cydweddu Gweithrediadau a Chynllunio, Llywodraeth Cymru

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Catrin MS Davies; y Cynghorydd Amanda Jenner; Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol dros yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys; a Diane Reynolds, Pennaeth yr Economi a Gwasanaethau Digidol, Cyngor Sir Powys.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 11/03/22

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2022 yn gofnod cywir.

## 4. PORTFFOLIO BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU

Cafodd y Bwrdd adroddiad diweddaru.

Y Grŵp Cynghori Economaidd
Nododd y Bwrdd fod cyfarfod rhagarweiniol o'r Grŵp Cynghori Economaidd wedi'i gynnal ym mis Mawrth a bod cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu ynghylch sut y gallai'r Grŵp gyfrannu i'r Fargen Twf. Nodwyd bod dau le gwag yn y Grŵp ac y dylai'r rheini gael eu cymryd gan bobl o Geredigion. Cytunodd PG i rannu CVs aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd â'r Bwrdd.

Adolygiad Sicrwydd y Portffolio (PAR/Gate 0)
Dywedodd CM fod adolygiad sicrwydd y portffolio wedi'i gynnal ym mis Mawrth gan dîm adolygu annibynnol allanol a benodwyd gan y Llywodraeth. Cafwyd adroddiad a oedd yn rhoi'r Portffolio yn y categori Oren yn gyffredinol, a chydnabuwyd yn eang bod sgôr o'r fath yn sgôr dda i Bortffolio sydd wedi cyrraedd y cam hwn yn ei ddatblygiad.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod Bargen Twf Canolbarth Cymru yn symud yn ei blaen yn dda gyda'i pharatoadau ar gyfer cyflawni, a bod strwythur llywodraethu sydd wedi'i sefydlu yn dda ac sy'n gweithredu yn dda eisoes ar waith ynghyd â Swyddfa Rheoli'r Portffolio. Roedd y Tîm Adolygu wedi canfod ei bod yn ymddangos ar hyn o bryd bod cyflawni'n llwyddiannus yn bosibl, ond bod angen i reolwyr roi sylw i rai materion er mwyn sicrhau bod y Portffolio mewn sefyllfa dda i ddechrau'r cam cyflawni pan fyddai'r cyllid cychwynnol wedi'i sicrhau.

Dyma'r prif faterion y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt:
- Dod i benderfyniad ynghylch rôl Arweinydd y Portffolio
- Datblygu Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y Sector Preifat
- Mireinio'r strwythur llywodraethu ac adrodd er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau'n gynt

- Cynllunio capasiti a sgiliau ar gyfer y cam cyflawni
- Egluro’r amserlenni ar gyfer cael y llythyr cynnig cyllid cyntaf.

Mae Cynllun Gweithredu wedi’i ddatblygu ar gyfer yr Uwch-berchnogion Cyfrifol, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael sylw. Caiff hwn ei fonitro gan y Grŵp Rheoli a’r Uwch-berchnogion Cyfrifol.

Recriwtio (Swyddfa Rheoli’r Portffolio)

Mae Angharad Massow wedi’i phenodi yn Swyddog Cyfathrebu, roedd Tom Yeo wedi ymgymryd â’r rôl Arweinydd Ynni, ac roedd Rheolwr Rhaglen wrthi’n cael ei recriwtio i symud y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo yn ei blaen. Mae trafodaethau’n parhau ynghylch rôl Swyddog Ynni a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru.

Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y Sector Preifat
Roedd drafft cynnar o’r Strategaeth wrthi’n cael ei ddatblygu. Roedd swyddogion yn ceisio eglurder gan y Llywodraethau ynghylch eu disgwyliadau, cyn ymgynghori â’r Grŵp Cynghori Economaidd a’r Aelodau a llunio fersiwn derfynol o’r ddogfen.

Datblygu Rhaglen - Digidol
Rhannodd DO y wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu Bwrdd y Rhaglen Ddigidol ac am ddatblygu Achos Busnes y Rhaglen ymhellach. Roedd y Bwrdd wedi cyfarfod ddwywaith a byddai’n parhau i gyfarfod bob mis er mwyn sicrhau bod y broses hon yn symud yn ei blaen. Byddai aelodau Bwrdd y Rhaglen yn penderfynu pa brosiectau y dylid eu gweithredu, er mwyn bodloni’r amcanion o ran buddsoddi mewn seilwaith digidol a chyfrannu at gyflawni amcanion buddsoddi’r Portffolio.

Datblygu Rhaglen - Safleoedd ac Eiddo
Ar ôl cwblhau’r adolygiad 3 cham o safleoedd ac eiddo yn llwyddiannus, roedd angen gwneud gwaith manwl yn awr sy’n benodol i safle, a hynny ar gyfer pob safle a nodwyd. Roedd swydd y rheolwr rhaglen wedi’i chynnig, a’r gobaith oedd y byddai’r swydd wedi’i llenwi erbyn mis Medi. Roedd trafodaethau’n parhau gyda’r Llywodraeth ynghylch cael cyllid posibl i gynorthwyo gyda’r gwaith datblygu pellach er mwyn symud y rhaglen yn ei blaen.

Datblygu Prosiectau
Roedd swyddogion wedi cyfarfod i drafod statws cyfredol y prosiectau, yn enwedig o safbwynt datblygu Achosion Amlinellol Strategol, ac roeddent wedi nodi nifer o broblemau:

- Roedd costau adeiladu sy’n cynyddu yn ei gwneud yn anodd i brosiectau ragweld costau’n gywir, a gallai hynny effeithio ar y sefyllfa o ran y cyllid sy’n cael ei geisio gan y Fargen Twf ac unrhyw gyllid cyfatebol.

- Nid yw rhai prosiectau wedi nodi ffynonellau eraill o gyllid eto. Er nad yw’n hanfodol bod cyllid cyfatebol wedi’i gadarnhau yn ystod cam yr Achos Amlinellol Strategol, rydym yn disgwyl i brosiectau fod yn ystyried opsiynau.

- Ffosffadau – ceir pryderon y bydd y parthau ym Mhowys a Cheredigion yn cyfyngu ar gynigion datblygu neu'n eu llesteirio.

Arfarnu Achosion Busnes
Disgwylir i noddwyr prosiectau gyflwyno eu Hachosion Amlinellol Strategol (cam cyntaf y broses o ddatblygu Achosion Busnes) erbyn diwedd mis Mehefin. Byddai Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn arwain y broses arfarnu'n annibynnol ar y ddau awdurdod lleol. Byddai cymorth allanol gan Hatch Ltd yn darparu cymorth a mewnbwn technegol. Byddai'r broses hon yn arwain at ddiweddaru Achos Busnes y Portffolio dros yr haf fel sy'n ofynnol gan y Llywodraeth.

Cafodd templed arfarnu ei rannu â'r Bwrdd, a fydd yn cael ei gwblhau gan dîm adolygu Tyfu Canolbarth Cymru. Bwriedid defnyddio system goleuadau traffig ar gyfer pob adran, ac yna cytuno ar gategori cyffredinol. Wedi hynny byddai crynodeb o Arfarniad yr Achos Busnes yn cael ei gyflwyno, i'r Grŵp Rheoli yn y lle cyntaf, i'w adolygu ynghyd â'r Achosion Busnes, ac yna byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod cyfleus nesaf Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Cafodd amserlen arfarnu ei rhannu â'r Bwrdd hefyd.

Cofrestr Risg a Materion
Cafodd Cofrestr Risg a Materion wedi'i diweddaru ei rhannu â'r Bwrdd. Tynnwyd sylw at risgiau'n ymwneud ag adnoddau i sicrhau bod prosiectau a rhaglenni'n symud yn eu blaen yn ddigonol ac at risgiau'n ymwneud â chostau adeiladu sy'n cynyddu.

| 5. | CYLLID |
|---|---|

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad ynghylch sefyllfa Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru o ran alldro refeniw ar gyfer 2021/22 a'r gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23.

Cytunodd y Bwrdd fod angen i'r Gofrestr Risg gael ei diweddaru fel ei bod yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y naill Lywodraeth na'r llall yn cefnogi'n ariannol y gwaith o gyflawni'r Fargen Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Bwrdd yn nodi'r sefyllfa o ran alldro ar gyfer 2021/2022**

2. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r gyllideb flynyddol o £200,000 ar gyfer y flwyddyn 2022/2023, i'w hariannu'n gyfartal gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

| 6. | PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU |
|---|---|

Rhoddodd ACH adroddiad diweddaru ynghylch cynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

Aelodaeth Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd Sir Wyn Thomas o Gyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd Sir David Selby o Gyngor Sir Powys i wasanaethu ar Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.**

Adroddiad ynghylch Sgiliau Gwyrdd
Lansiwyd ar 23 Mawrth 2022 a rhannwyd â Llywodraeth Cymru.

Cyflwyno Adroddiad ynghylch Dyfarniad Grant y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a chafodd cyllid ei gymeradwyo.

Y Warant i Bobl Ifanc

Roedd Hatch Associates wedi'u comisiynu i ddarparu cymorth technegol ar gyfer adroddiad pen-desg sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Maent yn cynnal gweithdai gyda phartneriaid er mwyn deall y rhwystrau o ran darpariaeth a chynnydd, yn rhan o'r adroddiad ymchwil pen-desg a'r Cynllun Gweithredu.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Sefydlu Grwpiau Clwstwr

Fel y cytunodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn flaenorol, roedd Cadeirydd a Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi adolygu aelodaeth gyfredol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r gwaith o sefydlu nifer o grwpiau clwstwr. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, roedd grwpiau clwstwr cychwynnol wedi'u sefydlu fel a ganlyn:

- Darparwyr Hyfforddiant
- Busnesau
- Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadarnhaodd ACH fod Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynrychioli yn y grŵp clwstwr ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant. Dywedodd hefyd fod y grŵp wedi bod yn ymchwilio i waith recriwtio i'r sector gofal cymdeithasol ac y byddai'n adrodd yn ôl ynghylch hynny. Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cydweithio'n agos â'r ddau Fwrdd Iechyd sydd yn y rhanbarth.

Cafodd ei holi ynghylch prentisiaethau, a dywedodd fod awydd o hyd ymhlith cyflogwyr i gymryd prentisiaid. Cafodd ei holi ynghylch cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig ddatblygu sgiliau arwain, a dywedodd fod darparwyr yn awyddus i helpu.

Yn ogystal â'r grwpiau clwstwr hyn, byddai Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Bolisi yn cael eu sefydlu ar gyfer agweddau penodol ar waith polisi Llywodraeth Cymru.

Byddai Cyfarfod Blynyddol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei gynnal ar 11 Gorffennaf 2022, a byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter wedyn, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Blaenraglen Waith

Roedd trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Rheolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ynghylch y pethau allweddol sydd i'w cyflawni yn ystod y deuddeg mis nesaf a thu hwnt i hynny, sydd wedi'u cynnwys yn y Nodyn Cyfarwyddyd drafft. Byddai'r cynnwys yn cael ei ddiweddaru bob chwe mis a'i ailgyflwyno i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i gyfeiriad polisi ac adlewyrchu cynnydd o ran cerrig milltir allweddol.

Byddai angen nodi'r pethau allweddol sydd i'w cyflawni ar gyfer pob un o'r meysydd isod:

- Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25
- Sgiliau Digidol
- Sgiliau Sero Net
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Addysg Bellach a Phrentisiaethau
- Y Gymraeg.

| 7. | UNRHYW FATER ARALL |
|---|---|

Nid oedd unrhyw fater arall.

| 8. | DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL |
|---|---|

26 Medi 2022
12 Rhagfyr 2022

**Y Cynghorydd Sir Bryan Davies**
**Cadeirydd**